PWYLLGOR CYNLLUNIO

DYDD MERCHER, 7 TACHWEDD 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Keith Jones(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Lay, Congreve, Driscoll, Gordon, Hudson, Jacobsen, Jones-Pritchard a/ac Sattar |

32 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cynghorwyr Ahmed a Murphy

33 : DATGANIADAU O FUDDIANT

| CYNGHORYDD | EITEM | RHESWM |
|---|---|---|
| Lay | 18/1705/MJR | Wedi cyflogi gan Greggs, Sgwâr Canolog<br>Cyfarwyddwr Anweithredol Bws Caerdydd |

34 : CEISIADAU RHEOLI DATBLYGIAD

Ystyriodd y Pwyllgor yr atodlen o geisiadau rheoli datblygu a gyflwynwyd yn unol â Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990:
PENDERFYNWYD: Yn unol â phwerau dirprwyedig y Pwyllgor hwn, penderfynir ar y ceisiadau rheoli datblygu canlynol yn unol â'r argymhellion fel y'u nodwyd yn adroddiad Cyfarwyddwr Gweithrediadau'r Ddinas yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau pellach a nodir isod a dylid rhoi gwybod am y penderfyniad yn unol ag Adran 70 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 neu Adran 16 neu Adran 74 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig a Chadwraeth 1990)

# CEISIADAU A GANIATEIR WRTH WEITHREDU RHWYMEDIGAETH GYNLLUNIO YN UNOL AG ADRAN 106 DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990:

18/01705/MJR – CATHAYS

SAFLE HEN DŶ MARLAND A MAES PARCIO NCP, SGWÂR CANOLOG, CAERDYDD
Adeiladu cyfnewidfa drafnidiaeth gydag ymgynullfan gysylltiedig ac unedau manwerthu/masnachol ategol (dosbarthiadau defnydd A1/A2/A3), 305 o fflatiau preswyl (dosbarth defnydd C3), 10,318 metr sgwâr (GIA) ar gyfer arwynebedd swyddfa (dosbarth defnydd B1), maes parcio 249 lle, parth cyhoeddus a seilwaith a gwaith peirianyddol cysylltiedig.

Yn amodol ar y diwygiad canlynol i Amod 2, i nodi:

“Sŵn Traffig yr Heolydd: Cyn meddiannu’n fanteisiol unrhyw uned breswyl, rhaid cyflwyno cynllun i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig i ddangos bod pob ystafell gyfanheddol sy'n agored i draffig ffordd allanol a sŵn yr orsaf fysiau yn fwy na 63 DBA Leq 16 awr (maes rhydd) yn ystod y diwrnod (07:00 i 23:00 awr) neu 57 DBA yr LEQ 8 awr (maes rhydd) yn y nos (23:00 i 07:00 awr) yn destun inswleiddiad sain mesurau i sicrhau bod pob ystafell o'r fath yn cyflawni lefel sŵn mewnol o 40 DBA Leq 16 awr yn ystod y dydd a 35 DBA LEQ 8 awr yn y nos"

Bydd y cynllun a gyflwynir ar gyfer awyru yn cydymffurfio â Dogfen Gymeradwy F Rheoliadau Adeiladu a bydd yn cydymffurfio â gofynion acwstig y Rheoliadau Inswleiddio rhag Sŵn 1975. Ni fydd ystafell gyfanheddol yn cael ei defnyddio hyd nes y bydd y mesurau inswleiddio sain ac awyru a gymeradwywyd wedi eu gosod yn yr ystafell honno.

Yn amodol ar y diwygiad canlynol i Amod 10, i nodi:

"Manylion y Ffyrdd Mynediad: Cyn meddiannu’n fanteisiol elfennau gorsaf fysiau neu faes parcio y datblygiad caiff manylion y cyffyrdd mynedfa'r Gogledd a'r De i'r orsaf fysus gyda Stryd Wood a Heol Saunders yn y drefn honno, a'r fynedfa i'r maes parcio gyda Heol Saunders, eu cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a’u cymeradwyo'n ysgrifenedig. Caiff y manylion hynny eu gweithredu cyn dod â’r datblygiad i ddefnydd manteisiol”.

Yn amodol ar y diwygiad canlynol i Amod 11 i nodi:

"Cynllun Cyflawni a Gwasanaeth: Cyn meddiannu’n fanteisiol pob rhan o'r datblygiad (preswyl, swyddfa a gorsaf fysiau), caiff manylion y strategaeth wasanaethu, sy'n nodi lleoliadau a defnydd y cilfachau gwasanaeth arfaethedig, a manylion amseru a gweithrediad gwasanaethu, gyda golwg ar leihau'r gwrthdaro gyda bysiau a defnyddwyr eraill y briffordd (yn arbennig yn ffedog yr orsaf fysiau) a sicrhau (gan gyfeirio at Lôn Great Western) nad yw cilfachau/llwybrau gwasanaeth yn cael eu camddefnyddio, eu cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a’u cymeradwyo'n ysgrifenedig. Bydd y mesurau yn cynnwys manylion am amseru, defnyddio, gweithredu a rheoli'r cilfachau hynny o fewn, a mynediad iddynt, drwy'r gyfnewidfa, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny. Rhoddir y cynllun cymeradwy ar waith yn unol â’r manylion cymeradwy cyn meddiannu'r rhan honno o’r safle datblygu.'

Yn amodol ar y diwygiad canlynol i Amod 19 i nodi:

"Rhaglen Dylunio a Gweithredu Tirlunio: O fewn 9 mis i gychwyn y datblygiad bydd manylion llawn y gwaith ar dirwedd galed a meddal yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig. Bydd y manylion hyn yn cynnwys lefelau gorffenedig arfaethedig, cloddwaith, deunyddiau wyneb caled, gwasanaethau arfaethedig a phresennol uwchben ac islaw lefel y ddaear, cynlluniau plannu (gan gynnwys rhestri o rywogaethau planhigion, meintiau, niferoedd neu ddwyseddau, ac yn achos coed, plannu, stacio, tomwytho, diogelwch, diogelu’r pridd a dulliau ôl-ofal) a rhaglen weithredu. Bydd y manylion wedi’u cyflwyno’n gyson â chynlluniau eraill wedi’u cyflwyno i ategu’r cais a chaiff y gwaith tirlunio ei wneud yn unol â’r rhaglen ddylunio a gweithredu gymeradwy.

35 : MATERION BRYS (OS OES RHAI)

Dim

36 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF - DYDD MERCHER 21 TACHWEDD 2018 AM 1:30PM